

Tasg 2

(Estynnol, sbardun 3)

Gweithgareddau ar gyfer unigolion

1. O ble mae'r dylunwyr yn cael lluniau a delweddau ar gyfer creu'r cardiau?

.....

.....

2. Sut mae'r cwmni'n ceisio gwarchod yr amgylchedd?

.....

.....

.....

3. Cynlluniwch a gwnewch gerdyn cyfarch Cymraeg – ond fel y cwmni hwn, ceisiwch fod yn wyrdd, e.e.

Gallech chi:

- ddefnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu
- defnyddio hen luniau a delweddau (fel hen ffotograffau, lluniau o gylchgrawn ac ati)
- ail-ddefnyddio deunyddiau eraill (fel botymau sbâr ac ati).

Dewiswch achlysur arbennig, e.e. pen-blwydd, Sul y Mamau / Sul y Tadau ac ati.

Chwiliwch am ddeunyddiau addas.

Meddyliwch am y cyfarchiad - beth rydych chi'n mynd i'w ysgrifennu ar flaen y cerdyn a'r tu mewn iddo. Efallai y gallech chi ysgrifennu cyfarchiad sy'n berthnasol i'r llun neu'r ddelwedd, e.e. petai gennych chi hen fap bach o'r byd ar y tu blaen, gallech chi ysgrifennu:

"Dw i'n meddwl y byd ohonot ti!"

Os hoffech chi weld rhai o gardiau Dyfal Donc cyn gwneud y gwaith hwn, ewch i <http://www.dyfaldonc.com/cy/greeting-cards/>